# DANGOSYDDION PERFFORMIAD AR GYFER ASESIAD YMCHWIL GYFREITHIOL SQE2

| *Sgiliau* | *Dangosyddion sy'n dangos cymhwysedd* | *Dangosyddion nad ydynt yn dangos cymhwysedd* |
|---|---|---|
| **Canfod a defnyddio ffynonellau perthnasol a gwybodaeth berthnasol** | • Mae'r ymgeisydd yn dewis gwybodaeth berthnasol am y mater cyfreithiol, neu broblem y cleient, o'r ffynonellau cynradd a/neu eilaidd a ddarperir, e.e.<br>○ mae'r ymgeisydd yn nodi deddfwriaeth berthnasol/achosion perthnasol a/neu esboniadau cyfreithiol/sylwebaeth gyfreithiol mewn testunau i ymarferwyr, neu mewn gwyddoniadur cyfreithiol;<br>○ mae'r ymgeisydd yn dewis deunydd perthnasol, megis darpariaeth benodol/darpariaethau penodol o statud, neu reol gyfreithiol/reolau cyfreithiol o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil<br>• Mae'r ymgeisydd yn defnyddio ei ganfyddiadau i brofi/cefnogi ei ateb i'r cwestiwn/cwestiynau a ofynnwyd | • Mae'r ymgeisydd yn dewis gwybodaeth amherthnasol yn unig o'r ffynonellau cynradd a/neu eilaidd a ddarperir<br>• Nid yw'r ymgeisydd yn dewis digon o wybodaeth berthnasol o'r ffynonellau cynradd a/neu eilaidd a ddarperir.<br>• Nid yw'r ymgeisydd yn gallu gwahaniaethu rhwng gwybodaeth sy'n berthnasol i'r mater cyfreithiol neu broblem y cleient, a gwybodaeth sy'n amherthnasol e.e. mae ateb yr ymgeisydd yn cynnwys gwybodaeth a dynnwyd o bob ffynhonnell, waeth beth fo'i pherthnasedd, neu o nifer o ffynonellau amherthnasol<br>• Nid yw'r ymgeisydd yn defnyddio ei ganfyddiadau i brofi/cefnogi ei ateb i'r cwestiwn/cwestiynau a ofynnwyd |
| | | |
| **Darparu cyngor sy'n canolbwyntio ar y cleient ac sy'n mynd i'r afael â phroblem y cleient** | • Mae'r ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth o broblem y cleient o safbwynt y cleient e.e. mae'r ymgeisydd yn mynd i'r afael â phroblem gyfreithiol y cleient, unrhyw ystyriaethau masnachol perthnasol a/neu flaenoriaethau, amcanion a chyfyngiadau'r cleient. | • Nid yw'r ymgeisydd yn deall y broblem o safbwynt y cleient, e.e. mae'n canolbwyntio ar faterion amherthnasol/yn rhoi cyngor nad yw'n ystyried blaenoriaethau, amcanion na chyfyngiadau'r cleient, neu sy'n amhriodol ar gyfer sefyllfa'r cleient. |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Defnyddio iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol** | • Mae'r ymgeisydd yn defnyddio iaith ddealladwy a syml i gyfleu ffeithiau a gwybodaeth yn effeithiol<br><br>• Mae'r ymgeisydd yn defnyddio terminoleg gyfreithiol gywir lle bo angen | • Mae'r darllenydd yn cael trafferth deall defnydd yr ymgeisydd o iaith; nid yw'r ateb yn glir a/neu mae wedi'i fynegi'n wael<br><br>• Mae dealltwriaeth y darllenydd yn cael ei heffeithio'n andwyol gan natur ddwys neu fyr yr ateb<br><br>• Mae'r ymgeisydd yn defnyddio termau technegol/jargon cyfreithiol sy'n ddiangen neu'n ddryslyd |
| | | |
| ***Y Gyfraith*** | ***Dangosyddion sy'n dangos cymhwysedd*** | ***Dangosyddion nad ydynt yn dangos cymhwysedd*** |
| **Cymhwyso'r gyfraith yn gywir at sefyllfa'r cleient** | • Mae'r ymgeisydd yn nodi'r egwyddorion cyfreithiol perthnasol ac yn eu defnyddio'n gywir yng nghyd-destun ffeithiau achos y cleient | • Nid yw'r ymgeisydd yn nodi nac yn defnyddio'r egwyddorion cyfreithiol cywir yng nghyd-destun ffeithiau achos y cleient<br><br>• Mae'r ymgeisydd yn nodi'r egwyddorion cyfreithiol cywir ond yn eu defnyddio'n anghywir yng nghyd-destun achos y cleient |
| | | |
| **Defnyddio'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr at sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol, a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll** | • Mae dadansoddiad cyfreithiol yr ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun ffeithiau'r achos, e.e. mae'r ymgeisydd yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth i fynd i'r afael â'r mater cyfreithiol/problem y cleient yn effeithiol<br><br>• Lle bo'n berthnasol, mae'r ymgeisydd yn cydnabod materion moesegol ac yn arfer crebwyll effeithiol wrth fynd i'r afael â'r rhain yn unol ag Egwyddorion a rheolau ymddygiad proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) | • Nid yw dadansoddiad cyfreithiol yr ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun ffeithiau achos y cleient<br><br>• Nid yw'r ymgeisydd yn cydnabod materion moesegol nac yn arfer crebwyll effeithiol wrth fynd i'r afael â'r rhain yn unol ag Egwyddorion a rheolau ymddygiad proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) |